# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at y datganiad am Fanciau yng Ngwlad yr Iâ a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Hydref 2008

**At David Lloyd:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Hydref, dywedodd Andrew Davies y byddai ef neu y byddwn i'n ysgrifennu atoch er mwyn rhoi eglurhad i chi am y pwynt a wnaethoch am arian wrth gefn ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny yr effeithiwyd arnynt gan gwymp y banciau yng Ngwlad yr Iâ. Gan fod y mater hwn yn dod o dan y portffolio Llywodraeth Leol, gofynnwyd i mi anfon ateb atoch.

Fel y pwysleisiodd Andrew Davies yn ei Ddatganiad Llafar, mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu canolbwyntio yn y lle cyntaf ar gefnogi Llywodraeth y DU yn ei hymdrechion i sicrhau bod y cyfan o'r asedau sydd wedi'u rhewi yn cael eu rhyddhau cyn gynted ag y bo modd.

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd gan Lywodraeth y DU ar 15 Hydref ac yr oeddwn innau yn bresennol ynddo, dywedodd Llywodraeth y DU na fyddai'n rhoi iawndal i sefydliadau megis yr awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr sydd wedi buddsoddi ar raddfa fawr. Mae'n bosibl y byddai rhoi iawndal o'r fath yn cael effaith andwyol ar y trafodaethau dwys sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth y DU a'r awdurdodau yng Ngwlad yr Iâ.

Er nad yw iawndal ariannol yn opsiwn, dywedais i ac Andrew Davies mewn datganiad ar y cyd ar 10 Hydref y dylai unrhyw awdurdod sy'n wynebu anawsterau yn y tymor byr o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol gysylltu â Llywodraeth y Cynulliad. O dan amgylchiadau o'r fath, byddem yn barod i gynnig cyngor a chymorth i'r awdurdodau dan sylw, gan gynnwys ystyried cyfarwyddiadau cyfalafu os bydd angen.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1331(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Tachwedd 2008

**At Brynle Williams:**

Yn ystod y sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ddydd Mawrth 14 Hydref, fe ofynnoch gwestiwn atodol i mi ynghylch tipio anghyfreithlon ar dir preifat, ac addewais ymchwilio i'r mater.

Rheolwyr tir, perchnogion neu feddianwyr eiddo preifat sy'n gyfrifol am glirio achosion o dipio anghyfreithlon ar dir preifat, gan gynnwys y gost o'i lanhau. Rwy'n derbyn nad yw hon yn sefyllfa ddelfrydol, a dyma pam yr wyf eisoes wedi darparu, fel y sonioch, £24,000 i'r mudiad Cadwch Gymru'n Daclus fel rhan o brosiect peilot i roi arian cyfatebol a fydd yn cyfrannu at gostau clirio achosion o dipio anghyfreithlon ar dir preifat. Fodd bynnag, ni fyddai ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i symud gwastraff o dir preifat yn mynd i'r afael â'r broblem. Credaf yn hytrach y byddai'n annog tipio anghyfreithlon am na fyddai pobl yn barod i dalu'r costau o gael gwared ar wastraff yn gyfreithlon pe baent yn gwybod y byddai'r trethdalwr yn talu am glirio deunydd a dipiwyd yn anghyfreithlon mewn cae cyfagos.

Rydym yn ymdrechu i atal tipio anghyfreithlon ar dir preifat rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae ymchwiliadau ar droed i faint, natur ac effaith y broblem hon er mwyn i ni fedru

datblygu atebion. Er enghraifft, bellach mae holl Awdurdodau Lleol Cymru yn nodi achosion o dipio anghyfreithlon ar y gronfa ddata Flycapture. Mae Flycapture yn cofnodi nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon y mae Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol yn ymdrin â hwy, ynghyd â manylion y camau gorfodi a gymerwyd. Nod y gronfa ddata yw creu sylfaen dystiolaeth am dipio anghyfreithlon er mwyn llywio'r gwaith o lunio polisïau yn y dyfodol a rhoi dull o reoli i awdurdodau a fydd yn eu galluogi i fynd ati i ddatrys y broblem o dipio anghyfreithlon. Mae ymchwil ar droed hefyd i'r modd y gall y gronfa ddata Flycapture helpu i roi gwell darlun o'r broblem mewn perthynas â thir preifat trwy wahodd tirfeddianwyr neu eu cynrychiolwyr i gyflwyno data o'u gwirfodd i Flycapture.

Dyma grynodeb o'r mentrau eraill sydd ar waith er mwyn mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon ar dir preifat:

- Er 2004, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ariannu Asiantaeth yr Amgylchedd i ymdrin â gwastraff peryglus mewn drymiau ac asbestos ffibrog a gafodd eu tipio'n anghyfreithlon, gan wneud hynny fel rhan o'r gwaith o weithredu'r protocol ar dipio anghyfreithlon rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r arian hwn wedi helpu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ymdrin ag oddeutu 40 o achosion y flwyddyn. Defnyddir y gronfa hon pan fo'r gwastraff yn golygu bod perygl difrifol o niwed neu lygredd yn union ar yr adeg honno ac mae'n berthnasol i dir preifat a thir cyhoeddus fel ei gilydd.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn aelod o'r Grŵp Cenedlaethol Atal Tipio Anghyfreithlon. Nod y grŵp yw canfod atebion i'r broblem o dipio anghyfreithlon. Caiff buddiannau ffermwyr eu cynrychioli yn benodol ar y grŵp hwn gan Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr. Mae'r grŵp wedi cyhoeddi arweiniad i dirfeddianwyr ynghylch sut i ymdrin â thipio anghyfreithlon.

Mae'r mentrau hyn yn rhan o'n hagenda ehangach ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, trwy gyfuno addysg, gweithio mewn partneriaeth a gorfodaeth.

O ran eich sylw ynghylch rhoi mwy o bwys ar orfodi ac erlyn, dyma feysydd sydd yn cael blaenoriaeth gennym eisoes. Gwelir hyn yn y ffaith bod y mesurau a geir yn Neddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 wedi'u cyflwyno er mwyn galluogi awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ymateb yn fwy effeithiol i dipio anghyfreithlon. Rydym wedi rhoi cymhorthdal gwerth £44,000 i awdurdodau lleol Cymru er mwyn darparu hyfforddiant arbenigol ar gamau gorfodi yn erbyn tipwyr anghyfreithlon. Mae nifer o achosion llys wedi'u cynnal yn ddiweddar am droseddau sy'n gysylltiedig â gwastraff, gan gynnwys achos dyn o Gwm Tawe sydd wedi'i ddedfrydu i bum mis o garchar am waredu gwastraff yn anghyfreithlon. Gobeithiaf y bydd y cyhoeddusrwydd da sy'n gysylltiedig ag achos o'r fath yn gwneud i eraill ailystyried.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1331(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Tachwedd 2008

**At Mick Bates:**

Yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 14 Hydref, gofynnoch a fyddai trosglwyddo'r pŵer dros fioamrywiaeth o San Steffan yn opsiwn gwell ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth na'r targedau gwirfoddol a geir ar hyn o bryd.

Dim ond ychydig iawn o swyddogaethau statudol sy'n ymwneud yn benodol â gwarchod/gwella bioamrywiaeth. At ei gilydd, nid oedd bioamrywiaeth i'w weld ar yr agenda polisi yn y DU tan ar ôl i'r Confensiwn ar Fioamrywiaeth Fiolegol gael ei llofnodi ym 1992. Lle bo gan Weinidogion bwerau mewn perthynas â bioamrywiaeth, maent yn arferadwy eisoes gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â Chymru. Er bod y pwerau a'r

dyletswyddau hyn yn gyfyngedig o ran eu nifer, maent yn rhoi i ni gyd-destun sy'n annog dull mwy trwyadl o weithredu mewn perthynas â'n pwerau i warchod natur. Eir ati yn y ddogfen amgaeedig i restru'r pwerau a'r dyletswyddau sy'n arferadwy mewn perthynas â bioamrywiaeth/bioamrywiaeth fiolegol yng Nghymru.

Yn hanesyddol, roedd y pwyslais ar warchod natur (ac at ei gilydd, roedd hynny'n golygu gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd penodedig), yn hytrach nag ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, fel arfer, bydd unrhyw gamau a gymerir i ddiogelu, i wella neu i warchod natur hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth.

O dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, a gafodd ei wneud o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, rhoddwyd swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (sydd bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru) o dan Reoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol ayb) 1994 (fel y'i diwygiwyd) ac o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, ymhlith eraill: mae'r ddau ddeddfiad hyn yn rhoi ar waith ar lefel y DU y Cyfarwyddebau Ewropeaidd ar Gynefinoedd ac Adar. Mae'r swyddogaethau hyn yn darparu ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sydd o bwysigrwydd Ewropeaidd ac o bwysigrwydd cenedlaethol ac mae ynddynt ofynion i warchod bioamrywiaeth drwy gymryd camau i adfer ac i gynnal y cynefinoedd a'r rhywogaethau hyn er mwyn iddynt gyrraedd a chadw statws ffafriol o ran cadwraeth. Ar hyn o bryd, mae'r targedau ar gyfer bioamrywiaeth yn rhai gwirfoddol am nad oes pŵer statudol ar gael—naill ai i Ysgrifennydd Gwladol Cymru nac i Weinidogion Cymru—bennu targedau statudol ar fioamrywiaeth. O'r herwydd, nid oes unrhyw bwerau gweithredol statudol dros fioamrywiaeth y gellir eu trosglwyddo o San Steffan i Gaerdydd.

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol newydd er mwyn i Weinidogion Cymru bennu targedau statudol mewn perthynas â bioamrywiaeth.

Fodd bynnag, nid pennu targedau statudol ar gyfer awdurdodau cyhoeddus yw'r unig ffordd—nac ychwaith y ffordd fwyaf effeithiol—o warchod bioamrywiaeth. Mae'n bosibl y gwyddoch fod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, o dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, i roi ystyriaeth i'r diben o warchod bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau (cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau yn briodol). Rydym yn mynd ati yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth yr awdurdodau cyhoeddus am y dyletswyddau sydd arnynt o dan y ddeddf hon ac am bwysigrwydd bioamrywiaeth yn gyffredinol, gan wneud hynny drwy gymryd nifer o gamau sy'n anelu at wella'u dealltwriaeth ac at sicrhau bod ganddynt ragor o wybodaeth. Rydym yn eu hannog hefyd i rannu'u hadnoddau er mwyn iddynt roi ystyriaeth i fioamrywiaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith. Er enghraifft, yn ddiweddar, bu'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn arwain cyfres o weithdai ledled y wlad ar gyfer cynrychiolwyr ar lefelau uchaf yr awdurdodau lleol. Roedd nifer mawr ohonynt yn bresennol yn y gweithdai hyn. Erbyn hyn, mae bron pob un o'r awdurdodau lleol ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi penodi Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth ar lefel y Cabinet, a'u rôl hwy yw sicrhau bod yr awdurdodau lleol ym mynd ati, ym mhob un o'u meysydd gwaith, i sicrhau manteision o ran bioamrywiaeth.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1350(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Tachwedd 2008**

**At Janet Ryder:**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cwestiwn atodol i Gwestiwn 1 Kirsty Williams OAQ(3)1350(FM) yn ystod y sesiwn Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 14 Hydref 2008. Rydych yn awgrymu y bydd Cymru ymhen 10 mlynedd yn brin o ryw 67 o athrawon sydd â

chymhwyster gorfodol i ddysgu plant sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw. Yn ogystal, buoch yn holi a fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried estyn yr arian sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn gyfredol i hyfforddi athrawon plant byddar, a hynny er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Fel y gwyddoch, yr Awdurdodau Addysg Lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael ar gyfer addysg a hyfforddiant parhaus athrawon. Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol i athrawon sydd am arbenigo mewn dysgu plant a phobl ifanc sydd â nam ar eu golwg neu ar eu clyw, neu sydd â nam amlsynhwyraidd, gael cymhwyster arbenigol a elwir yn Gymhwyster Gorfodol.

Yn 2003 a 2004 cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru archwiliadau o'r ddarpariaeth addysgiadol ar gyfer y rheini sydd â nam ar eu clyw, neu ar eu golwg, neu sydd â nam amlsynhwyraidd (sy'n fyddar ac yn ddall). Awgrymodd canlyniadau'r archwiliad fod anghysondeb ar draws Cymru o ran polisïau ar gyfer ymyrryd ac o ran faint o gefnogaeth a oedd ar gael i blant a phobl ifanc â namau synhwyraidd.

O ganlyniad, yn 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru safonau ansawdd ar gyfer gwasanaethau addysgiadol i blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu clyw neu ar eu golwg, neu sydd â nam amlsynhwyraidd. Datblygwyd y safonau ansawdd hyn benodol er mwyn hwyluso cysondeb o ran ein dull o weithredu yn hyn o beth. Defnyddir y safonau yn feincnodau er mwyn gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r safonau ansawdd wedi cael sêl bendith Estyn, yn enwedig fel cyfrwng hunanasesu y gall awdurdodau addysg lleol ei ddefnyddio. Bwriedir gwerthuso y defnydd ar y safonau hyn yn allanol yn ddiweddarach yn 2009/10.

Yn ogystal, o ganlyniad i'r archwiliad, daethom yn ymwybodol, fel y pwysleisiwyd gennych, y byddai cyfran helaeth o athrawon a oedd â chymhwyster gorfodol ar y pryd ar gyfer dysgu disgyblion sydd â nam synhwyraidd, yn cyrraedd oedran ymddeol yn ystod y deng mlynedd nesaf—roedd yn ofynnol felly ein bod yn hyfforddi athrawon ychwanegol i ddiwallu anghenion disgyblion. Cydnabu Llywodraeth Cynulliad Cymru yr angen i helpu i godi ymwybyddiaeth o'r broblem hon ac yn 2005 cyhoeddont y daflen 'Arweiniad i Arbenigaeth'. Nod y daflen hon oedd esbonio rôl yr athro arbenigol ar gyfer disgyblion sydd â nam synhwyraidd, sut i hyfforddi er mwyn dod yn athro arbenigol a lle i gael rhagor o wybodaeth. Cafodd y daflen 'Arweiniad i Arbenigaeth' ei dosbarthu'n eang i bob ysgol, i wasanaethau cymorth yr Awdurdodau Addysg Lleol, sefydliadau addysg uwch a'r sector gwirfoddol.

Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru, Casnewydd i sicrhau bod cyrsiau newydd ar gyfer y Cymhwyster Gorfodol ar gael i rai sy'n athrawon ar ddisgyblion sydd â nam ar eu clyw ac sydd â nam ar eu golwg. Fel y buoch yn pwysleisio wrthyf ar 14 Hydref, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi trefnu bod arian ar gael ar gyfer yr hyfforddiant hwn. At ei gilydd, dyrannwyd cymorth ychwanegol gwerth cyfanswm o £192,000 gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y tair blwyddyn academaidd o fis Medi 2006 ymlaen. £48,000 ar gyfer 2006/2007, £98,000 ar gyfer 2007/2008 a £48,000 ar gyfer 2008/2009.

Roeddem yn hynod o falch i'r cwrs ar gyfer y cymhwyster gorfodol gael ei ddatblygu ar y cyd â Sefydliad Mary Hare yn Berkshire, sef Ysgol Ramadeg sy'n enwog drwy'r byd a chanolfan rhagoriaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â nam ar eu clyw.

Mae arian ar gael o hyd o dan Weithgaredd 4 y Gronfa Ysgolion Gwell er mwyn galluogi athrawon i ymgymryd â'r hyfforddiant arbenigol pwysig hwn.

Ym mis Medi 2006, cofrestrodd 24 o athrawon ar y Cwrs Diploma i Raddedigion—12 ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu clyw a 12 ar gyfer disgyblion sydd â nam ar eu golwg. Pan fydd y cwrs presennol yn dod i ben ar ddiwedd blwyddyn academaidd bresennol 2008/2009,

disgwylir y bydd yr hyfforddiant a gynhelir gan Gasnewydd wedi ychwanegu 24 o staff cymwys at y gweithlu.

Rhaid i'r Awdurdodau Addysg Lleol barhau i sicrhau darpariaeth briodol ar gael ar gyfer hyfforddi athrawon plant byddar.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1352(FM) a gyhoeddwyd gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog, Tachwedd 2008**

**At Paul Davies:**

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Hydref, yn dilyn eich cwestiwn yn ystod sesiwn y Cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 14 Hydref ynghylch y penderfyniad i derfynu cyllid Partneriaeth Cymuned yn Gyntaf Pobl Ifanc Sir Benfro o fis Ebrill 2009 ymlaen.

Roedd ymgynghoriad Llywodraeth y Cynulliad gyda Chymunedau Nesaf (y cam nesaf yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf) yn tynnu sylw at y mater o Gymunedau Buddiant gan fanylu ar gynnig Llywodraeth y Cynulliad i ystyried priodoldeb y Partneriaethau Cymunedau Buddiant yn parhau i gael eu hariannu'n uniongyrchol o dan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf oherwydd eu natur thematig.

Ar 17 Mehefin, cyhoeddodd Leighton Andrews, y Dirprwy Weinidog dros Adfywio sy'n gyfrifol am Gymunedau yn Gyntaf y byddai rôl pob un o'r Cymunedau Buddiant yn y rhaglen yn cael ei gwerthuso er mwyn cytuno ar y ffordd orau ymlaen gyda phob achos. Yn dilyn y gwerthusiadau hyn, penderfynwyd terfynu cyllid Cymuned Buddiant Cymunedau yn Gyntaf Pobl Ifanc Sir Benfro o fis Ebrill 2009.

Sefydlwyd y Bartneriaeth Pobl Ifanc (ar ddechrau'r Rhaglen) yn wreiddiol i weithredu mewn rhai ardaloedd targed yn unig (Adran Etholiadol Gorllewin Neyland, Adran Etholiadol y Garth ac ardal Aberdaugleddau), gyda'r bwriad ymhen amser o gynnwys pobl ifanc ar hyd a lled y sir. Nid yw'r rhaglen wedi datblygu y tu hwnt i'r ardaloedd gwreiddiol hynny ac nid oes erioed unrhyw gynigion wedi cael eu cyflwyno gan y Bartneriaeth na chan Gyngor Sir Benfro (y corff sy'n derbyn y grant) i wneud hynny. Hefyd, nid yw'r Bartneriaeth wedi ymgysylltu â'r ddwy Bartneriaeth yn y ward; Monkton, Penfro a Llanion,,Doc Penfro sy'n cael eu hystyried fel rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y Sir.

Mae'r rhan helaeth o waith y Bartneriaeth yn cael ei wneud gyda grwpiau anodd eu cyrraedd yn Aberdaugleddau ac Ardal Etholiadol y Garth yn Hwlffordd. Nid yw'r ardaloedd hyn yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008. O ran ymgysylltu â'r grwpiau lleol, mae'r Bartneriaeth yn dibynnu'n helaeth ar gysylltiadau lleol sydd eisoes wedi cael eu sefydlu gyda gweithwyr datblygu cymunedol, gweithwyr ieuenctid a thrwy gynorthwyo a rhannu ymchwil leol ac archwiliadau. Gellir ystyried bod llawer o'r ddarpariaeth hon yn ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol.

Mae'r Bartneriaeth wedi honni ei bod wedi chwarae rhan bwysig yn y Cynllun Sengl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Sir Benfro. Anfonwyd y cynllun atom fel rhan o'r ymgynghoriad statudol; roedd yn un o'r rhai mwyaf siomedig o ran y dystiolaeth oedd ynddo ar fynd i'r afael â Thlodi Plant ac ni chrybwyllwyd ynddo Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf Pobl Ifanc na'r ddwy Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf eraill yn y Sir.

Hefyd, mae'r Bartneriaeth wedi datgan yn ei Adroddiad Monitro Blynyddol ei bod yn ymgysylltu â Gwasanaeth Ieuenctid Sir Benfro trwy Bartneriaeth Pobl Ifanc Sir Benfro. Fodd bynnag, dim ond weithiau mae cynrychiolwyr o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bartneriaeth ac nid oes yna unrhyw dystiolaeth yn yr adroddiad nac yn y

Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n dangos sut y maent yn mynd ati i ymgysylltu â'r Bartneriaeth.

Seilir y penderfyniad i derfynu cyllid y Bartneriaeth ar ôl ystyried nodau cyffredinol a rhesymeg y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal â thystiolaeth o'r diffyg datblygiad a hefyd y ffaith mai bach iawn yw'r gwerth a ychwanegwyd hyd yn hyn o ran ymgysylltu â chynllunio strategol a darparu gwasanaethau i bobl ifanc yn Sir Benfro yn gyffredinol.

Yn olaf, hoffwn nodi y bydd partneriaethau Monkton a Llanion yn parhau i gael cyllid ar gyfer rhan nesaf y Rhaglen (2009-12). Mae eu gwaith yn cynnwys cynlluniau sylweddol i ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc. Rwy'n disgwyl y bydd hyn yn sail i ddatblygu cysylltiadau cryfach gyda gwasanaethau ieuenctid ehangach yn Sir Benfro yn y dyfodol.